**Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru**

**Director General Health, Social Care & Early Years Group / NHS Wales Chief Executive**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Mai 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Cyllid a Threfniadau Llywodraethu'r GIG**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus am ragor o wybodaeth yn dilyn presenoldeb diweddar Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mai 2024.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r costau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig. Yn ogystal, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch diweddaru am gynnydd yr achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â dau o'r cwmnïau sy'n rhan o Gonsortiwm Acorn, sef partner adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre.

**Mesurau Arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – costau yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru**

Fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig, cafodd nifer bach o gynghorwyr annibynnol eu contractio i ddarparu cymorth i'r Bwrdd mewn perthynas â chyllid, trefniadau llywodraethu'r Bwrdd, cynllunio, ansawdd a diogelwch, ymgysylltu a chyfathrebu, ac iechyd meddwl. Yn rhinwedd eu rôl, cwblhaodd rhai o'r cynghorwyr hyn adolygiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion; gwasanaethau fasgwlaidd; y gweithlu; cynllunio; a chyfathrebu ac ymgysylltu. Yn ogystal, mae darparwyr eraill wedi cwblhau nifer bach o adolygiadau pellach.

Y cyfanswm costau uniongyrchol cyfunol, gan gynnwys am y cymorth a ddarparwyd gan y cynghorwyr annibynnol rhwng mis Mawrth 2023 a mis Ebrill 2024, ac ar gyfer cwblhau'r adolygiadau allanol, oedd £163,683.42.

Yr adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oedd:

- Adolygiad annibynnol o bryderon a godwyd ynghylch BIPBC sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion
- Adolygiad annibynnol o ddiogelwch yng ngwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu BIPBC i gleifion mewnol
- Adolygiad dilynol o ddiogelwch yng ngwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu BIPBC i gleifion mewnol – a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024
- Adolygiad annibynnol o benodiadau interim i swyddi gweithredol yn BIPBC
- Asesu meysydd allweddol agenda'r gweithlu ('adolygiad arbenigwyr adnoddau dynol')
- Adolygiad annibynnol o swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd
- Adolygiad asesu sicrwydd – gwasanaethau fasgwlaidd
- Adolygiad o lwybrau fasgwlaidd rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023
- Adolygiad annibynnol o bortffolios y tîm gweithredol
- Asesiad annibynnol o ddulliau a phrosesau cynllunio integredig
- Adolygiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o adolygiadau iechyd meddwl
- Gwrando ar ddinasyddion, cleifion, staff a phartneriaid

Yn ein sesiwn dystiolaeth ar 8 Mai, gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau hefyd am y pecyn cymorth ariannol gwerth £297m i'r Bwrdd. Fel y nodwyd yn ein hymateb, roedd hyn yn gyfystyr ag £82m yn ychwanegol bob blwyddyn dros dair blynedd a hanner i gefnogi'r Bwrdd Iechyd wrth iddo ddechrau cyfnod newydd o dan ymyrraeth wedi'i thargedu, gyda'r gwerth am ran o'r flwyddyn yn £51m o'r cyfanswm yn y flwyddyn ariannol gyntaf.

O'r £82m hwn, mae £40m yn ymwneud â chyllid afreolaidd i wella diffyg ariannol y sefydliad ar adeg ei isgyfeirio i ymyrraeth wedi'i thargedu. Mae'r cyllid hwn wedi'i gadarnhau ar sail afreolaidd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Dyrannwyd y buddsoddiad arall o £42m y flwyddyn i gefnogi'r broses drawsnewid mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cael ei neilltuo i nifer o feysydd, gan gynnwys gwasanaethau canser, iechyd meddwl, cefnogi'r broses drawsnewid, gofal brys a gofal argyfwng, gofal a gynlluniwyd, blaenoriaethau digidol, a datblygiad sefydliadol.

Yn ogystal â'r adnodd a amlinellir uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael cymorth gan Weithrediaeth y GIG mewn nifer o feysydd blaenoriaeth fel rhan o'r fframwaith uwchgyfeirio.

**Canolfan Ganser Felindre**

Fel y nodwyd yn y sesiwn, mae'r ddau gwmni yn dal i ymwneud â'u hachosion cyfreithiol priodol. Dywedodd Mr Price (Paragraff 164 o'r trawsgrifiad o'r sesiwn) fod achos Kajima wedi cyrraedd y cam dedfrydu ym mis Mawrth 2023 a bod yr achos wedi dod i ben.

Ar ôl gwirio ymhellach, gallwn gadarnhau nad yw hyn yn wir gan fod yr achos wedi'i uwchgyfeirio i'r Goruchaf Lys yn Japan ac, fel yr oedd pethau ar ddydd Llun 13 Mai 2024, nid oedd dyddiad gwrandawiad wedi'i bennu eto.

Yn yr un modd, mae achos Sacyr ar y cam apelio o hyd ac mae gwaharddiad ar bob cosb yn dal i fod mewn grym. Fel y nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i roi gwybod i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) am unrhyw newidiadau yn yr achosion cyfreithiol hyn.

Rydym wedi holi'r Ymddiriedolaeth a'r cynghorwyr cyfreithiol ac nid ydynt wedi derbyn hysbysiad o unrhyw newid yn sefyllfa'r naill achos na'r llall.


Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch gwahardd neu eithrio cwmnïau o'r contract, mae dwy sail yn rheoliad 57 o'r Rheoliadau Caffael dros wahardd neu eithrio cwmnïau ar y cam Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ), sef A) Rhan 2.1, y 'Sail droseddol' a B) Cwestiwn 2.3.4 y 'Sail dros eithrio o'r gystadleuaeth'. Mae cyngor cyfreithiol a geisiodd yr Ymddiriedolaeth gan ei chynghorwyr cyfreithiol wedi cadarnhau ei bod yn briodol i Kajima a Sacyr ateb 'Na' i'r ddau gwestiwn hyn ar y sail nad oedd (ac nad yw) yr achosion yn eu herbyn wedi'u cwblhau.

Yn dilyn y cyngor cyfreithiol hwn, er nad yw hynny'n ofynnol o dan y Rheoliadau Caffael, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth i'r ddau sefydliad ddarparu tystiolaeth o'r camau gweithredu a gymerwyd – sy'n cyfateb, cyn belled â phosibl, i'r gofynion hunanlanhau a nodir yn y Rheoliadau. Hynny yw, hyd yn oed pe bai'r achosion hyn yn mynd yn erbyn Sacyr a Kajima, y byddent yn cael cyfle i ymgymryd ag ymarferion hunanlanhau fel y cam nesaf – felly, roedd hwn yn ymarfer i fynd i'r cam nesaf hwnnw yn wirfoddol gan yr Ymddiriedolaeth ac Acorn at ddibenion sicrwydd.

Mae hunanlanhau yn cynnwys camau fel: talu iawndal angenrheidiol; a chymryd mesurau cadarn o safbwynt technegol (e.e. rheolaethau technegol, terfynau dirprwyo), sefydliadol (e.e. polisi, gweithdrefnau, fframweithiau rheoli, adrodd, llywodraethu) a phersonél (e.e. hyfforddiant a chamau gweithredu penodol gan dimau / unigolion) sy'n briodol i atal troseddu neu gamymddwyn pellach.

Hyderaf fod hyn yn ateb y cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor. Byddaf yn ymdrechu i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau yn statws cyfreithiol yr achosion pan ddeuant i ben.

Yn gywir



**Judith Paget CBE**